**Cofnodion Cyfarfod CCG 15.12.22 Neuadd Cymuned Glantwymyn**

**19:430**: **Presennol**: Gareth Wyn Jones (Cadeirydd), Deryck Lewis, Bedwyr Fychan, William Owen, Iwan Jones, Elwyn Vaughan, Rhodri Wigley, Glyn Jones, Sandra Evans (Clerc)

**19:431: Ymddiheuriadau**: Gwenfair Rhys-Davies, Paul Hughes, Huw Williams, Gareth Owen, Aled Griffiths

**19:432:** Datganiadau o ddiddordeb: Dim

**19:433:** Cyflwyno a derbyn cofnodion Tachwedd 22 Cynigiwyd hwn gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan William Owen. O ran yr halen nodwyd bod cais cyffredinol ar gyfer yr ardal i gyd ond yn benodol ar gyfer Darowen, Abercegir a Thalywern a Cheinws.

**19:434:** Adroddiad y Clerc: Nodwyd bod baner ambiwlans awyr wedi cael ei chodi ar y cylchfan. Nodwyd nad yw halen wedi cyrraedd sawl ardal o fewn y CC er bod ceisiadau am halen wedi cael eu cyflwyno ers mis Medi.

**19:435: Cynllunio** Dim

**19:436: Materion Ariannol ac eitemau i'w talu:**

**19:437:1: Derbyn Cyfrifon 2020-21** Nid yw'r cyfrifon yn barod gan y cyfrifwyr eto.
Erbyn hyn ymddengys bod gordaliad wedi cael ei dalu i'r clerc ar gyfer Tachwedd 2021. Talwyd unwaith mewn taliad cyfunol gyda mis Hydref ac eto ddechrau mis Rhagfyr. Mae'r arian wedi cael ei ad-dalu erbyn hyn. Bydd taliadau'n cael eu talu bob mis fel ag y maent ar hyn o bryd a chedwir cofnod yn dangos 12 mis i osgoi bod hyn yn digwydd eto. Ymddiheurodd y Cadeirydd a'r Clerc am y camgymeriad.
Nodwyd bod WR yn fwy manwl nag oedd angen mewn sawl rhan o'r awdit gan gynyddu'r gwaith i bawb a'r costau. O ran yr honiad gan WR nad oedd y cofnodion yn gyflawn. Nodwyd nad oedd yn deg i WR wneud hyn gan fod y cofnodion cyflawn ar y wefan. Diffyg y cyfrifwyr oedd nad ydynt yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg. Ni ddylent gyfrif camgymeriad yn y cofnodion a ddigwyddodd wrth ddarparu cyfieithiadau. Awgrymwyd y dylid ceisio dod o hyd i gyfrifwyr enwydd. Gwneir ymholiadau am ba gymwysterau fyddai'n angenrheidiol.

**19:438: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**EcoDyfi – Iwan Jones**
Mynychodd Iwan y cyfarfod blynyddol. Mae llawer o brysurdeb wedi bod gyda phrosiectau gwahanol gan gynnwys Tyfu Dyfi a fuodd yn llwyddiannus ac yn llewyrchus iawn. Cafwyd siaradwr gwadd oedd yn trafod cael ynni lleol gan fferm hydro y Esgairwyddan, Pennal. Darperir ynni i gymunedau Machynlleth ar hyn o bryd a'r gobaith yw ehangu i ardaloedd eraill.
**Ysgol Glantwymyn** – Llongyfarchiadau i Rhodri Wigley a gafodd ei benodi yn gynrychiolydd y Cyngor yn ddiweddar.

**Y Cyngor Sir – Elwyn Vaughan**
Mae Canolfan Hamdden Machynlleth dal ar agor er bydd nifer o ganolfannau hamdden eraill ym Mhowys yn cael eu cau. Derbyniwyd 18 miliwn o bunnau'n fwy na'r llynedd o ran cyllideb ond mae toriadau sylweddol yn bodoli o hyd.
Cynhelir ymgynghoriad am ambiwlans awyr canolbarthh Cymru am 6 wythnos gan gychwyn ar y 9fed o Ionawr. Bydd Stephen Harding yn ystyried opsiynau eraill. Cynnig Elwyn yw cadw Trallwng a Chaernarfon gan rannu sifftiau ac ymestyn oriau a chael cerbyd brys ar gyfer ar gyfer Wrecsam a Glangwy ac ardal y gogledd ddwyrain. Byddai modd felly cynnal gwasanaeth yn y Canolbarth gyda hofrennydd a cherbydau brys yn y Trallwng.

**19:439: Mynwentydd –**
**Ywen Llanwrin** Mae Jonathan Anderson ar fin ysgrifennu ei adroddiad am Ddarowen

**Wal Eglwys Llanwrin** Mae Rhodri Wigley wedi cael golwg ar y wal. Y sylwadau yw bod y wal gyfan angen sylw mewn mannau. Cynigiwyd y dylid rhannu'r gwaith i wahanol gamau. Mae'r wal rhwng y ddwy fwâ mewn cyflwr reit dda ar y cyfan ond mewn mannau mae 6-12 modfedd o dop y wal wedi dirywio. Awgrymir y dylid ail godi top y wal gyda cherrig a mortar gyda mortar ar ei ben. Dylid capio'r wal yr holl ffordd rownd. Nodwyd bod hanner y wal ddim ond yn retaining wall.
Er diogelwch awgrymwyd gosod ffens dwy droedfedd o'r wal ochr y fynwent gyda physt haearn 2 fodfedd bocs haearn galvanised du gyda thop deche gyda phedwar cylch i ddal gwifren blaen. Bydda ffens o'r fath yn caniatau strimio hwylus a fyddai ddim yn amharu'n ormodol ar yr olygfa o'r tŷ cyfagos.
Cynigiwyd y dylid rhoi hysbyseb yn y Blewyn Glas gan Iwan Jones ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan.
**Darowen – Mae gwreiddiau coeden dderw'n codi ac yn bygwth bwrw'r cerrig bedd ac mae dwy goeden ywen angen sylw. Ofynnir i Jon Anderson.**

**19:440: Meinciau** Penderfynwyd prynu mainc ar gyfer Darowen (du a brown) a Chwmlline (brown). Cynigiwyd hyn gan Iwan Jones ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan.

**19:441: Baw cŵn yng Nghemaes** Nodwyd bod trigolion Cemaes wedi prynu 6 bin erbyn hyn a'u gosod o gwmpas y pentref a'r cyffiniau. Er nad yw'r llwyth y cynnwys yn sylweddol ar hyn o bryd, mynegwyd pryderon difrifol am y dyfodol a rhagwelir y bydd y llwyth yn cynyddu'n sylweddol erbyn yr haf. Mae rhywun o'r pentref yn gwagio'r bins. Nodwyd nad yw CC Glantwymyn yn gyfrifol am y biniau hyn a bod CC Glantwymyn wedi gofyn i Gyngor Sir Powys gosod a gwagio bins yn y pentref eisoes.

**19:442: Gohebiaeth** Llythyr yn holi am statws cadwraethol Abercegir. Nodir mai cyfrifoldeb y Cyngor sir yw materion felly yn hytrach na chynghorau Cymuned

**19:443: Materion Priffyrdd a Phontydd**
Biniau halen Darowen a Chwmlline Cysylltir â Phowys i ofyn am bris a manylion archebu.
Angen archebu halen i'r holl ardal yn enwedig Cwm Bychan Mawr a chwm berllan
Coed ar y bont yng Nghwmlline – adroddir hwn eto
Ffordd yn dirywio ger yr afon yng Nghemaes Yn anffodus mae cyllid Powys yn cael ei wario ar ddarn o ffordd rhwng Llan a Llanbrynmair ar hyn o bryd.
**19:444: Unrhyw Fater Arall**
**Halen -** Mynegwyd anfodlonrwydd am y diffyg halen yn yr ardal. Cyflwynwyd ceisiadau am halen ym mis Medi mae sawl ardal heb halen o hyd. Cymerodd sawl neges ffôn ac ebost i gael gritter i Ddarowen ac yn y pen draw ychydig iawn o halen a wasgarwyd deg graen o halen i bob medr sgwâr
Daeth y cyfarfod i ben am 9.55.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau 26.1.22

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 15.12.22**.

- **Cylch Ti a Fi Glantwymyn** – Cynigiwyd rhoi £500.00 tuag at gostau cynnal gan Elwyn Vaughan ac fe'i heiliwyd gan Bedwyr Fychan